



Mathau o docio

Awgrymiadau ar docio

- Defnyddiwch secateurs miniog a llif docio bob amser.
- Gall offer heb fin arwain at ddifrodi canghennau a straeniau.
- Dechreuwch trwy gael gwared ar ganghennau marw neu rai sydd wedi'u difrodi.


Tocio tymhorol

Gaeaf

- Mae afalau a gellyg yn cael eu tocio yn y gaeaf yn bennaf, er mwyn annog twf egnïol.
- Mae tocio yn y gaeaf yn annog egin newydd i dyfu, mwy o flodau ac felly mwy o ffrwythau.
- Mae tocio yn y gaeaf yn ei gwneud hi'n haws gweld siâp a strwythur cyffredinol y goeden oherwydd bydd y dail wedi cwmpo, gan ei gwneud hi'n haws i'w thocio.

Gwanwyn

- Defnyddir yn bennaf ar gyfer coed ffrwythau carreg neu os yw coeden ffrwythau wedi mynd yn rhy fawr.
- Mae'n cadw coed yn fach oherwydd nad yw'n ysgogi llawer o dwf newydd.
- Mae hefyd yn gyfle da i gael gwared â phren marw neu heintiedig.
- Gallwch osgoi torri'r canghennau â ffrwythau arnynt i gael cymaint o gnwd â phosibl.



Haf


- Defnyddir yn bennaf ar gyfer coed ffrwythau carreg neu os yw coeden ffrwythau wedi mynd yn rhy fawr.
- Mae'n cadw coed yn fach oherwydd nad yw'n ysgogi llawer o dwf newydd.
- Mae hefyd yn gyfle da i gael gwared â phren marw neu heintiedig.
- Gallwch osgoi torri'r canghennau â ffrwythau arnynt i gael cymaint o gnwd â phosibl.

Hydref

- Mae'n well osgoi tocio yn ystod yr hydref gan ei fod yn gallu ysgogi twf newydd, pan mae'r goeden i fod ynghwsg.



Siapiau gwahanol y gallwch chi eu cael drwy docio



Safonol

Mae coed safonol yn siapiau coed tal, mawr gyda chorun agored canolog. Boncyffion o 2 fetr neu fwy a chyfanswm uchder o 8 metr. Mae eu taldra yn golygu bod llawer o ffrwythau'n cael eu cynhyrchu ond oherwydd eu maint, maent yn llai hygyrch ar gyfer eu casglu ac mae'n anoddach eu cynnal.

Llwyn

Mae siâp llwyn yn debyg i'r siâp safonol ond ar foncyff byr sy'n llai nag 1 metr. Cyfanswm yr uchder yw rhwng 2 a 3.5 metr, maent yn cynhyrchu llawer o ffrwythau yn ifanc ac yn hawdd i'w cynnal.

Pyramid

Mae'r pyramid yn debyg i'r llwyn, ond caniateir i'r prif flaguryn yn y canol gynnal ei oruchafiaeth gan greu siâp pyramid.

Coeden uncyff

Coed un coesyn wedi'u plannu ar ongl (45° fel arfer), gyda blagur ffrwytho yn cael eu hannog i ffurfio ar hyd y coesyn. Mae unrhyw ganghennau ochr yn cael eu tynnu trwy docio. Mae coed uncyff yn cymryd llai o le fel y gellir tyfu mwy o amrywiaethau (h.y. gwahanol fathau o goed ffrwythau) neu mwy o goed mewn man penodol. Maent hefyd yn cynhyrchu cnwd yn gynharach na'r mwyafrif o ffurfiau eraill, ond mae'r cynnyrch yn llai fesul coeden.

Coeden resi (Espalier)

Boncyff fertigol, canolog, gyda thair neu bedair cangen lorweddol ar bob ochr. Defnyddiol os oes waliau yn ffinio â pherllan neu ar gyfer llefydd bach. Bydd angen tocio arbenigol i gynnal y siâp.

Gwyntyll

Boncyff canolog byr gyda sawl cangen yn ymestyn o'r corun. Yn fwyaf addas ar gyfer tyfu ceirios i fyny wal.

Coeden resi lorweddol (Step-over espalier)

Coed rhesi gyda dim ond un haen o ganghennau llorweddol, 30 cm o'r ddaear. Mae'r rhain yn gwneud ffin newydd a chynhyrchiol ar gyfer llain lysiau neu ar gyfer perllan gyda choed mwy. Mae cynhyrchiant ffrwythau yn dibynnu ar faint y planhigyn.

Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk os gwelwch yn dda, neu ewch i <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000